

Mae angen diweddarau'r cyfeiriad strategol

Rydym yn dymuno cael cynllun cyflawni defnyddio sylweddau wedi'i ddiweddarau, er mwyn helpu i ddarparu gofal safonedig cyson ar draws Cymru a chynnig y sylfeini strategol i'r maes defnyddio sylweddau i leddfau pryderon cynyddol sy'n fygythiad i fywyd.



Beth yw'r cynllun cyflawni defnyddio sylweddau?

Mae'r cynllun cyflawni defnyddio sylweddau yn nodi prif flaenoriaethau gweithredol a pholisi Llywodraeth Cymru ar gyfer yr amserlen a amlinellwyd. Cyhoeddwyd y cynllun mwyaf diweddar a bennwyd ar gyfer 2019-2022 ym mis Hydref 2019, ond mae wedi cael ei ddiwygio er mwyn ymateb i Covid-19, i adlewyrchu'r gwaith a wnaethpwyd ac a gaiff ei wneud o ganlyniad i'r pandemig.[1] Er y nodir yn y cynllun bod y 'meysydd blaenoriaeth gwreiddiol ar gyfer y dair blynedd nesaf yn parhau i fod yn berthnasol', mae angen sicrhau bod y cynllun hwn yn cyd-fynd â mentrau newydd, pryderon newydd a bygythiadau newydd yn y maes defnyddio sylweddau yng Nghymru.

Pam nawr?

Ers y cynhaliwyd ymgynghoriadau cychwynnol yn 2019 i lunio'r prif flaenoriaethau a amlinellir yn y cynllun cyflawni mwyaf diweddar, mae cryn dipyn wedi newid yn y maes defnyddio sylweddau. Gwelir consensws cynyddol y dylai polisiâu addasu er mwyn adlewyrchu'r anghenion presennol mewn cymdeithas, a'r galwadau presennol a roddir ar wasanaethau trin defnyddio sylweddau.

Bu rhai datblygiadau nodedig yn y maes camddefnyddio sylweddau dros y blynyddoedd diwethaf. Cyhoeddwyd canllawiau, fframweithiau a phecynnau cymorth newydd yn argymhell sut y gall gwasanaethau weithredu dulliau gweithredu wedi'u hysbysu gan drawma o fewn arfer presennol.[2] Mae gwaith ymchwil a gynhaliwyd yn ddiweddar hefyd wedi dangos tystiolaeth o'r ffordd y mae grwpiau ar y cyrion, gan gynnwys y gymuned LHDTc+, yn wynebu nifer o rwystrau o hyd wrth fanteisio ar wasanaethau trin ffurfiol.[3] Ers y cyhoeddwyd y cynllun cyflawni defnyddio sylweddau mwyaf diweddar, mae adroddiadau allweddol yn nodi argymhellion cysylltiedig wedi cael eu cyhoeddi hefyd, gan gynnwys adolygiad annibynnol Bonesig Carol Black o gyffuriau [4], a chynllun cyffuriau 10 mlynedd Llywodraeth y DU, 'O niwed i obaith'. [5] Yn ogystal, gwelwyd y nifer uchaf erioed o farwolaethau a oedd yn gysylltiedig ag alcohol yn benodol yn cael eu cofnodi yng Nghymru yn 2022 [6] ac rydym yn parhau i weld cyfraddau uchel marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau yng Nghymru.[7] Dros y deuddeg mis diwethaf, rydym wedi wynebu bygythiadau newydd hefyd, megis opioidau synthetig, sef nitazinau, y mae ganddynt y potensial i gynyddu risg marwoldeb cynnar ymhlith pobl sy'n defnyddio sylweddau, gan ddinistrio mwy fyth o fywydau.[8] Mae'r cynllun presennol hefyd yn defnyddio terminoleg fel 'camddefnyddio sylweddau', "a ystyrir yn dderm sy'n creu stigma neu sy'n ddifriol i bobl sydd â phroblem sylweddau, gan ei fod yn cymell y syniad bod y math hwnnw o ddefnydd yn hollol wahanol i ddefnydd pobl arall o'r un sylwedd, nad yw wastad yn wir".[9]

Er mai rhai enghreifftiau yw'r rhain o'r ffordd y mae'r maes defnyddio sylweddau wedi newid a datblygu dros y blynyddoedd diwethaf, ceir sawl enghraifft arall o'r ffordd y mae gwasanaethau trin wedi addasu a'r ffordd y gallent addasu wrth symud ymlaen. Er hyn, nid yw'r cynllun cyflawni defnyddio sylweddau presennol yng Nghymru yn gwneud fawr ddim o gyfeiriad neu unrhyw gyfeiriad at enghreifftiau o'r fath. Felly, credwn bod angen diweddarau hyn er mwyn adlewyrchu'r polisi a'r arfer presennol yn well, gan osod y sylfeini er mwyn helpu i sicrhau gofal safonedig cyson ar draws Cymru, gan adlewyrchu'r datblygiadau a'r angen presennol.

Beth ydym yn ei ddymuno?

- Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddiweddarau'r cynllun cyflawni defnyddio sylweddau yng ngoleuni datblygiadau arwyddocaol yn y maes defnyddio sylweddau yng Nghymru, er mwyn cynnig sylfeini strategol i alluogi hwyluso safonau gofal cyson a lliniaru bygythiadau presennol ac yn y dyfodol.

Cyfeiriadau

1. Welsh Government (2021) [Substance Misuse Delivery Plan 2019-2022. Revised in response to COVID-19](#)
2. ACE Hub Wales. [Resources for professionals](#)
3. Murray, S. et al. (2023) [“It’s called homophobia baby” exploring LGBTQ + substance use and treatment experiences in the UK](#)
4. Black, C. (2021) [Independent review of drugs by Professor Dame Carol Black](#)
5. UK Government (2022) [From harm to hope: A 10-year drugs plan to cut crime and save lives](#)
6. Office for National Statistics (2024) [Alcohol-specific deaths in the UK: registered in 2022](#)
7. Office for National Statistics (2023) [Deaths related to drug poisoning by selected substances, England and Wales](#)
8. BBC (2024) [Deadly opioids smuggled into UK in dog food, BBC learns](#)
9. Scottish Drugs Forum (2020) [Moving Beyond 'People-First' Language: A glossary of contested terms in substance use](#)